

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Rhenti Masnachol (Coronafeirws)

Chwefror 2022



1. Cefndir

Bil Rhenti Masnachol (Coronafeirws) Llywodraeth y DU

1. Cyflwynwyd y Bil Rhenti Masnachol (Coronafeirws)¹ (y Bil) i Dŷ'r Cyffredin ar 9 Tachwedd 2021. Noddir y Bil gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol.

2. Mae teitl hir y Bil yn nodi ei ddiben fel a ganlyn:

"A Bill to make provision enabling relief from payment of certain rent debts under business tenancies adversely affected by coronavirus to be available through arbitration; and for connected purposes."

3. Wrth drafod ei ddiben, mae'r nodiadau esboniadol i'r Bil yn ychwanegu mai diben i y Bil yw:

"...to support landlords and tenants in resolving disputes relating to rent owed by businesses which were required to close during the COVID-19 pandemic. The Bill enables arbitration to be used to resolve these disputes if landlords and tenants cannot agree a way forward."²

4. Cwblhaodd y Bil ei daith drwy Dŷ'r Cyffredin ar 12 Ionawr 2012, a chafodd ei Ail Ddarllenriad yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 27 Ionawr 2022. Disgwylir i'r Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi ddechrau ar 10 Chwefror 2022.

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

5. Mae Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2 yn darparu bod angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol pan fo unrhyw Fil gan Lywodraeth y DU sy'n Fil perthnasol yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

6. Ar 3 Rhagfyr 2021, gosododd Vaughan Gething AS, Gweinidog yr Economi (y Gweinidog), Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol³ (y Memorandwm) gerbron y Senedd mewn cysylltiad â'r Bil.

¹ [Y Bil Rhenti Masnachol \(Coronafeirws\), fel y'i cyflwynwyd](#) (Bil 189 2021-22)

² Y Bil Rhenti Masnachol (Coronafeirws), [Nodiadau Esboniadol](#), paragraff 1

³ Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, Bil Rhenti Masnachol \(Coronafeirws\)](#), Rhagfyr 2021

7. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm erbyn 10 Chwefror 2022.⁴

Darpariaethau y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer

8. Mae paragraffau 11 i 26 o'r Memorandwm yn nodi asesiad Llywodraeth Cymru o'r darpariaethau yn y Bil y bydd angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, sef cymalau 9, 23 (gan gynnwys Atodlen 2), a 27.

9. Mae paragraffau 27 a 28 o'r Memorandwm yn nodi'r rhesymau dros wneud y ddarpariaeth ar gyfer Cymru yn y Bil.

10. Mae Llywodraeth y DU yn cytuno bod angen cydsyniad ar gyfer cymal 23 (gan gynnwys Atodlen 2) a chymal 27, i'r graddau y maent yn gymwys mewn meysydd datganoledig.⁵ Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod nodiadau esboniadol Llywodraeth y DU i'r Bil yn dweud nad oes angen cydsyniad ar gyfer cymal 9, ond nid oes esboniad pam nad oes diben datganoledig i gymal 9.⁶

Safbwynt Llywodraeth Cymru

11. Mae'r Memorandwm yn nodi bod adran 82 o *Ddeddf y Coronafeirws 2020* yn atal landlord rhag arfer ei hawl i gael ail-fynediad neu fforffediad os bu i denantiaid busnes penodol beidio â thalu rhent yn ystod y "cyfnod perthnasol", a gellir ei estyn mewn perthynas â Chymru drwy reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.⁷

12. Mae'r Memorandwm yn cadarnhau bod y "cyfnod perthnasol" wedi'i estyn yng Nghymru ar sawl achlysur, yn fwyaf diweddar yn Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc) (Cymru) (Coronafeirws) (Rhif 3) 2021 sy'n estyn y cyfnod perthnasol i 25 Mawrth 2022. Mae'r Memorandwm yn nodi mai dyma'r un diwrnod y daw'r cyfnod i ben yn Lloegr.⁸

⁴ Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Rhenti Masnachol (Coronafeirws), Rhagfyr 2021

⁵ Y Bil Rhenti Masnachol (Coronafeirws), Nodiadau Esboniadol, Atodiad – 'Territorial extent and application in the United Kingdom'

⁶ Y Bil Rhenti Masnachol (Coronafeirws), Nodiadau Esboniadol, Atodiad – 'Territorial extent and application in the United Kingdom'

⁷ Llywodraeth Cymru, y Memorandwm, paragraff 5

⁸ Llywodraeth Cymru, y Memorandwm, paragraff 5

13. Ym mharagraff 6 o'r Memorandwm, mae'r Gweinidog yn nodi:

"Cododd gwestiynau ynghylch beth sy'n digwydd ar ôl i'r cyfnod perthnasol ddod i ben a thrwy hynny pryd daw unrhyw ôl-ddyledion a gronnwyd yn ystod y cyfnod hwnnw'n daladwy. Cytunwyd y byddai fy swyddogion yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i ddatblygu a phasio Bil ar gyfer Cymru a Lloegr."

14. Ym mharagraff 28 o'r Memorandwm, mae'r Gweinidog yn datgan mai barn Llywodraeth Cymru yw y dylai'r warchodaeth a ddarperir i denantiaid gan y Bil fod yn gymwys yng Nghymru. Dywedodd y Gweinidog hefyd:

*"Er gwaethaf y ffaith nad oes llawer o dystiolaeth i awgrymu a yw dyled rhent tenantiaethau busnes sydd heb ei thalu yn broblem fawr yng Nghymru ai peidio, seilir ein barn ar y ffaith y byddai egwyddorion y Bil o fudd i denantiaid busnes Cymru drwy warchod y rhai nad ydynt wedi gallu talu rhent oherwydd y cyfyngiadau yng Nghymru."*⁹

15. Mae'r Memorandwm yn nodi, er bod Llywodraeth Cymru yn "fodlon ar y cyfan" â'r Bil fel y'i cyflwynwyd, mae ganddi rai pryderon penodol:

"Cymal 9: Mae cymal 9 yn darparu bod y tenant neu'r landlord yn cael atgyfeirio mater at gyflafareddu o fewn chwe mis wedi pasio'r Bil a bod gan yr Ysgrifennydd Gwladol y pŵer i estyn y cyfnod hwnnw. Dylai'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru a chael eu cydsyniad, cyn arfer pwerau o'r fath mewn perthynas â Chymru."

Cymal 27: Mae'r Cymal hwn yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol gymhwyso darpariaethau'r Bil os bydd ton arall o goronafeirws yn arwain at gau rhagor o fusnesau. Byddai'n ei alluogi i wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol fel y gellir cymhwyso rhai o ddarpariaethau'r Bil mewn achosion penodol neu i Gymru a/neu Lloegr yn unig. Gallai hyn godi er enghraifft os byddai'n briodol oedi cyn rhoi ateb penodol ar waith neu os nad ystyrir bod ateb penodol yn briodol i amgylchiadau ardal benodol. Byddai'r pŵer yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud darpariaeth gysylltiedig, ganlyniadol, arbed neu drosiannol sy'n cynnwys diwygio neu fel arall addasu Deddf Seneddol."

⁹ Llywodraeth Cymru, y Memorandwm, paragraff 28

Fel y mae wedi'i ddrafftio, mae Cymal 27 yn golygu, er bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gallu addasu'r modd y cymhwysir y Bil mewn ymateb i ofyniad i gau a gyhoeddir yn y dyfodol gan Lywodraeth y DU ar fusnesau yn Lloegr (er enghraifft, estyn y "cyfnod perthnasol", y "cyfnod gwarchoddedig" neu "gyfnod y moratoriwm"), nid oes gan Weinidogion Cymru unrhyw hyblygrwydd o'r fath o dan y Bil i wneud yr un peth mewn ymateb i ofyniad i gau a osodir ar fusnesau yng Nghymru yn y dyfodol gan Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn creu anghysondeb ac mae hefyd yn anghyson o ran gallu Gweinidogion Cymru i estyn y cyfnod perthnasol yng Nghymru at ddibenion a.82 o Ddeddf Coronafeirws 2020. Felly, dylai fod gan Weinidogion Cymru bwerau cyfatebol mewn perthynas â Chymru."¹⁰

16. Ym mharagraff 30 mae'r Gweinidog yn cadarnhau na all argymhell bod y Senedd yn rhoi ei chydysyniad i'r Bil fel y'i drafftiodd ar hyn o bryd a'i fod wedi codi pryderon gyda Llywodraeth y DU.¹¹

17. Daw'r Gweinidog i'r casgliad canlynol:

"Yn fy marn i mae'n briodol defnyddio Bil Rhenti Cymdeithasol (Coronafeirws) y DU fel cyfrwng i amddiffyn busnesau Cymru rhag fforffediad cyn belled â bod gwelliannau'n cael eu gwneud i'r Bil, fel y gyflwynir, sy'n mynd i'r afael â fy gofidiau."¹²

¹⁰ Llywodraeth Cymru, y Memorandwm, paragraff 29

¹¹ Llywodraeth Cymru, Memorandwm, paragraff 30

¹² Llywodraeth Cymru, y Memorandwm, paragraff 32

2. Ystyriaeth y Pwyllgor

18. Trafodwyd y Memorandwm yn ein cyfarfod ar 17 Ionawr 2022, a chytunwyd ar ein hadroddiad ar 31 Ionawr.¹³

Ein barn ni

19. Nodwn asesiad Llywodraeth Cymru fod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 9, 23 a 27 a'u Hatodlenni priodol i'r Bil fel y nodir yn y Memorandwm. Nodwn ymhellach fod Llywodraeth y DU yn cytuno o ran cymalau 23 a 27, a bod ei safbwynt ar gymal 9 yn aneglur. Rydym yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru.

20. Rydym hefyd yn nodi barn y Gweinidog, yn amodol ar ddiwygio'r Bil i fynd i'r afael â phryderon penodol (a drafodir isod), ei bod yn briodol defnyddio'r Bil fel cyfrwng deddfwriaethol i amddiffyn busnesau Cymru rhag fforffediad. Fodd bynnag, fel mater o egwyddor gyfansoddiadol a deddfu da, rydym yn ystyried ei bod yn arfer gwael i wneud cyfraith newydd lle "nad oes llawer o dystiolaeth" i ddangos yr angen am gyfraith o'r fath.

Argymhelliad 1. O ystyried datganiad y Gweinidog ym mharagraff 28 o'r Memorandwm "nad oes llawer o dystiolaeth i awgrymu a yw dyled rhent tenantiaethau busnes sydd heb ei thalu yn broblem fawr yng Nghymru", dylai'r Gweinidog, cyn gynted â phosibl a chyn y ddadl yn y Senedd ar gynnig cydsyniad perthnasol, rhoi mwy o resymeg a chyfiawnhad llawn dros fynd ar drywydd darpariaeth i Gymru yn y Bil.

21. Rydym yn nodi ymhellach, fel y mae pethau ar hyn o bryd, na fydd y Gweinidog yn argymhell bod y Senedd yn cydsynio â'r cymalau perthnasol yn y Bil oherwydd pryderon heb eu datrys ynghylch cymalau 9 a 27.

22. Yn benodol, o ran cymal 9, nodwn bryderon y Gweinidog ynghylch y pŵer i wneud rheoliadau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol a fydd â hawl i wneud rheoliadau o dan y cymal hwn a fyddai'n estyn y cyfnod o amser a nodir ar wyneb y Bil y gall tenant neu landlord atgyfeirio mater at gyflafareddu. Er ein bod yn cydnabod bod y Gweinidog wedi codi'r mater hwn gyda Llywodraeth y DU, yng nghasgliad 1 rydym yn ailadrodd pryder a nodwyd gennym yn

¹³ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 17 Ionawr 2022 a Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 31 Ionawr 2022.

fwyaf diweddar yn ein hadroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) Llywodraeth Cymru ar y Bil Cymwysterau Proffesiynol.¹⁴

Casgliad 1. Mae'r opsiwn y mae'r Gweinidog yn ei ffafrio, sef ceisio gwelliant i gymal 9 o'r Bil er mwyn sicrhau ymgynghoriad â Gweinidogion Cymru a'u cydsyniad cyn i'r Ysgrifennydd Gwladol arfer y pŵer gwneud rheoliadau yng nghymal 9, yn osgoi rôl y Senedd fel y ddeddfwrfa yng Nghymru. O ganlyniad, nid yn unig y mae'n cael ei hamddifadu o rôl sy'n effeithio'n uniongyrchol ar fanylion deddfwriaeth sylfaenol ar fater datganoledig a fydd yn dod i rym yng Nghymru, ond hefyd o ran cyflawni ei rôl o gynnal gwaith craffu ar is-ddeddfwriaeth a ddaw'n gyfraith yng Nghymru.

23. O ran cymal 27 o'r Bil, nodwn yn gyntaf fod y cymal hwn yn rhoi pŵer gwneud rheoliadau Harri VII eang i'r Ysgrifennydd Gwladol. Rydym yn cydnabod y byddai rheoliadau o'r fath yn ddarostyngedig i'r weithdrefn graffu gadarnhaol yn Senedd y DU.

24. Rydym hefyd yn nodi barn y Gweinidog y dylai Gweinidogion Cymru gael pwerau sy'n cyfateb i'r rhai a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol, fel y gall Gweinidogion Cymru gymhwyso'r deddfwriaeth, ar ôl iddi ddod i rym, mewn perthynas â Chymru pe bai ton newydd o'r coronafeirws yn golygu y budd rhaid cau busnesau.

Casgliad 2. Rydym yn cytuno â'r Gweinidog ac yn cefnogi'r safbwynt y dylai Gweinidogion Cymru gael pwerau cyfatebol o dan gymal 27 i weithredu yng Nghymru i'r rhai a roddwyd eisoes i'r Ysgrifennydd Gwladol.

25. Yn olaf, rydym unwaith eto yn nodi ei bod hi'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth amserol i'r Senedd, ac yn tynnu sylw'r Senedd at yr oedi rhwng cyflwyno'r Bil i Dŷ'r Cyffredin ar 9 Tachwedd 2021, a Llywodraeth Cymru wedyn yn gosod y Memorandwm gerbron y Senedd ar 3 Rhagfyr 2021.

¹⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, [Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru \(Memorandwm Rhif 2\) ar y Bil Cymwysterau Proffesiynol](#) – Ionawr 2022
